# Adroddiad Arolygu

**Little Stars (Deeside) Ltd**

**Little Stars (Deeside) Ltd**
**Uned 69**
**Third Avenue**
**Glannau Dyfrdwy**
**CH5 2LA**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

19/11/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Little Stars (Deeside) Ltd

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Little Stars (Deeside) Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 75 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 31/10/2019 |
| Ai gwasanaeth Dechrau'n Deg yw hwn? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth.<br>Fodd bynnag, defnyddir geiriau ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau eu hunain yn y lleoliad yma, am eu bod yn cael eu parchu ac yn brysur gydag ystod o weithgareddau. Maent yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau addas a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, ac maent yn dysgu sut i fod yn annibynnol ac i ryngweithio'n dda.

Gofelir am y plant yn eithriadol o dda gan staff galluog ac uchel eu cymhelliant ac maent yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelwch y plant. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn garedig, yn deg ac mewn ffordd y mae'r plant yn ei deall. Maent yn brofiadol ac yn gymwys iawn ac yn darparu gweithgareddau diddorol i helpu’r plant i ffynnu a datblygu yn dda.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae digon o weithgareddau ac ardaloedd chwarae a dysgu i ddatblygu sgiliau'r plant. Mae'r mannau dan do ac awyr agored yn addas i blant. Mae yna ddigon o deganau a gemau, sydd mewn cyflwr da, i helpu gyda datblygiad y plant.

Mae'r bobl sy'n gyfrifol am y lleoliad yn wybodus am ymarfer cyfredol gofal plant, ac mae hyn yn sicrhau lefel uchel o ofal i'r plant. Maent yn gwneud gwelliannau'n gyson, sydd er budd y plant a'u teuluoedd. Maent yn cefnogi tîm o staff ymroddgar ac uchel eu cymhelliant yn effeithiol. Mae partneriaethau llwyddiannus a chryf gyda rhieni, sy'n helpu'r plant i deimlo'n gartrefol a'u teuluoedd i deimlo fel eu bod yn cael eu cefnogi.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn gallu dylanwadu ar eu gofal. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ac mae eu diddordebau yn cael eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, mae plant yn dewis defnyddio sialc, defnyddio llithren, a chwarae gyda dinosoriaid.  Er bod yna drefn arferol i bob ystafell, mae dewisiadau'r plant yn cael eu parchu, er enghraifft, does dim rhaid iddynt gysgu os nad ydynt am gysgu.

Mae'r plant wedi ymgartrefu ac yn meithrin cydberthnasau cryf gyda'r staff, gan mai'r un staff sydd yn gofalu amdanynt. Mae'r plant yn hapus i fynd at staff am gwtsh a sgwrs. Mae system gweithiwr allweddol effeithiol a phroses 'ymgartrefu' ar waith. Dywedodd rhieni wrthym fod eu plant yn mwynhau mynychu'r lleoliad ac yn llawn cyffro pan maent yn gwybod eu bod nhw’n mynd yno. Dywedasant wrthym fod plant yn galw'r staff yn ffrindiau. Dangosodd y plant yn yr ystafell fabanod fodlonrwydd wrth iddynt gael cwtsh pan fod angen.

Mae'r plant yn cydweithio’n dda gyda'r oedolion, ee pan ofynnwyd iddynt ymolchi eu dwylo neu dacluso teganau. Maent yn rhannu ac yn gwneud cyfeillion sydd yn addas i'w cyfnod datblygu, er enghraifft, cymryd eu tro i chwarae gyda'r pypedau, neu rannu eitemau yn y gornel gartref. Mae'r plant yn hyderus ac yn wydn, er enghraifft, pan gwympodd plentyn tu allan, fe gododd a pharhaodd i chwarae yn hapus.

Mae gan y plant ddiddordeb yn eu chwarae ac maent yn ymgolli ynddo. Gwelsom blant wedi ymgolli’n llwyr yn eu gweithgareddau, er enghraifft wrth chwarae gyda blawd a sylwi ei briodweddau. Gwelsom fabanod yn chwerthin yn hapus, wrth iddynt chwarae gydag ysgydwyr cartref yn ogystal â gwylio goleuadau lliwiau gwahanol. Mae'r plant yn canolbwyntio am gyfnodau hir wrth chwarae gyda phasta ac eitemau go iawn yn y gornel gartref.

Mae gan y plant gyfleoedd i wneud pethau drostynt eu hunain ac i wneud cynnydd yn eu sgiliau i fod yn annibynnol. Maent yn diosg dillad pob tywydd ac yn gwisgo’u hesgidiau gyda chymorth. Mae plant cyn-ysgol yn gweini eu brecwast eu hunain ac mae'r plant i gyd yn dewis teganau a gweithgareddau.  Dywedodd rhieni wrthym fod y plant yn hapus i roi cynnig ar bethau newydd.

## Gofal a Datblygiad **Rhagorol**

Mae gan staff ddealltwriaeth drwyadl o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau effeithiol, ac wedi adolygu'r lleoliad a'r gofal yn unol â chanllawiau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19. Maent yn gallu siarad yn hyderus am ddiogelu a'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn os ydynt yn poeni am blentyn. Mae'r holl staff wedi dilyn hyfforddiant cyfredol o ran amddiffyn plant, cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau da ar gyfer newid cewynnau, darparu dillad gwely, ac wrth weini cinio. Mae'r prosesau hyn yn osgoi'r risg o groes-heintio. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd i'r plant gymryd rhan mewn cyfnodau ymarfer corff rheolaidd yn yr awyr agored. Maent yn deall ac yn dilyn y polisi meddyginiaeth. Maent yn darparu byrbrydau maethlon, fel rapiau a bwydydd diddorol ar draws y byd. Cyflogir dwy cogydd cymwys a darperir bwydlen ar wahân i unrhyw blentyn unigol sydd â hoffterau am fwyd gwahanol neu alergedd i fwydydd. Mae'r arfer yma yn mynd y tu hwnt i'r hyn sydd yn ddisgwyliedig. Dywedodd rhieni wrthym fod anghenion eu plant yn cael eu diwallu, yn cynnwys dangos gofal gydag unrhyw anghenion meddygol. Dywedasant wrthym fod y staff wedi bod yn syfrdanol, yn helpu gyda hyfforddiant poti a bod eu plant yn cael gofal da mewn awyrgylch cariadus.

Mae'r staff yn ymrwymedig iawn wrth ryngweithio â'r plant. Maent yn cynorthwyo'r plant i reoli eu hymddygiad ac i atgyfnerthu eu hunan-barch; er enghraifft, maent yn rhoi llawer o ganmoliaeth i'r plant am ddefnyddio cyllell a fforc. Maent yn rheoli ymddygiad plant yn garedig iawn, yn deg ac mewn ffordd mae'r plant yn ei deall ac yn defnyddio sticeri fel gwobrau pan fydd angen. Mae'r staff yn fodelau rôl da wrth iddynt ryngweithio'n dda, yn gwneud amser i blant, yn siarad â nhw yn gwerthfawrogi'r hyn maent yn ei ddweud.

Mae'r staff ymroddedig yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion y plant yn effeithiol. Mae'r staff yn adnabod sgiliau a hoffterau'r plant yn dda. Maent yn cofnodi arsylwadau o ddatblygiad plant ac yn cynllunio gweithgareddau o flaen llaw er mwyn symud eu datblygiad ymlaen. Mae hyn yn golygu y gallant gynllunio gweithgareddau gwmpas y plentyn fel unigolyn. Dywedodd rhieni wrthym fod y staff yn cyfathrebu ac yn gweithio'n dda gyda nhw i helpu datblygiad y plant. Mae'r staff yn cynnwys y rhieni wrth roi taflenni cymorth ar-lein iddynt yn fisol. Mae'r taflenni i'r rhieni yn rhoi enghreifftiau iddynt o weithgareddau y gallent wneud gartref sydd yn datblygu addysg eu plant yn y feithrinfa. Dywedasant wrthym fod eu plant yn ffynnu a bod staff yn defnyddio diddordebau'r plant i ddarparu gweithgareddau diddorol, sydd yn hybu eu datblygiad. Mae rhieni yn hapus bod y plant yn treulio llawer o amser allan yn yr awyr agored gydag amrywiaeth dda o weithgareddau wedi eu darparu.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, sy'n darparu man diogel a chyfforddus i'r plant ymlacio a dysgu ynddo. Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn datblygu amgylchedd da i gynyddu profiadau'r plant. Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad wedi nodi'r risgiau, ac wedi cymryd camau i leihau neu i gael gwaredu arnynt, er enghraifft, byddant yn mynd â'r gofrestr tu allan pan fydd y plant yn chwarae yn yr awyr agored fel bod y staff yn gwybod ble mae pob plentyn ar bob adeg. Mae driliau tân rheolaidd sydd wedi cael eu recordio yn dystiolaeth bod staff a phlant yn gwybod sut i adael y safle mewn argyfwng. Dywedodd rhiant wrthym ei fod wedi gweld staff yn glanhau ardaloedd yn rheolaidd a'i fod yn hyderus bod yr amgylchedd yn ddiogel ac wedi cael ei gynnal a'i gadw yn dda.

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn sicrhau amgylchedd addas ac yn darparu amrywiaeth o ardaloedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn lle gall y plant chwarae a chwilota. Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad wedi dechrau gwneud gwelliannau i'r amgylchedd awyr agored a cheir rhaglen dreigl am welliannau parhaus.  Mae gan y staff ddigon o gyfarpar o ansawdd dda i ddarparu gweithgareddau ysgogol a chyffrous ar gyfer plant. Mae ardal awyr agored, sydd yn cynnwys ardaloedd ar wahân ar gyfer pob ystafell yn cynnwys y babanod. Mae toiledau y gellir mynd atynt yn ddidrafferth i'r plant hyn ac ardal breifat wedi cael ei neilltuo ar gyfer newid cewynnau. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddefnyddio'r toiled yn annibynnol.

Mae'r adnoddau, y teganau a'r llyfrau yn addas, gan gynnwys eitemau cerdd a tharo. Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad a staff wedi datblygu ardaloedd ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad wedi arddangos gwaith celf lliwgar ac addas. Mae dodrefn addas ar gyfer y plant, a chadeiriau uchel a dodrefn ar gyfer babanod. Mae'r adnoddau, sydd yn addas i oedran y plant, mewn cyflwr glân a da. Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn darparu rhai adnoddau naturiol ar gyfer y plant er mwyn iddynt archwilio, fel boncyffion pren i eistedd arnynt yn yr awyr agored.  Byddai ardaloedd eraill yn elwa o ddefnyddiau naturiol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Rhagorol

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn wybodus ac yn brofiadol wrth arfer gofal plant cyfredol. Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o Ddiben cynhwysfawr. Roedd arsylwadau a wnaethpwyd yn ystod yr arolygiad yn dangos bod y bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn cwrdd ag anghenion y plant a'u rhieni. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu diweddaru a'u rhannu gyda'r holl staff. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r holl brosesau sydd angen eu dilyn. Dywedodd rhiant wrthym ei fod yn hapus ei fod wedi dod o hyd i'r feithrinfa hon.

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn monitro ac yn gwerthuso'r gwasanaeth bob blwyddyn. Maent yn cynllunio mlaen ac yn gwneud gwelliannu yn gyson er budd y plant a'u teuluoedd. Mae barn y rhieni, y staff, a'r plant yn cael ei thrin o ddifri drwy ddefnyddio holiaduron a chadw cofnodion o awgrymiadau a sylwadau sy'n cael eu gwneud gan rieni. Mae'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn cael eu nodi yn yr Adolygiad Blynyddol o'r Ansawdd Gofal. Mae hyn wedi arwain at newid yn yr ardaloedd chwarae a datblygiad fel eu bod nhw yn edrych yn ffres ac yn gwahodd y plant, sydd yn cynyddu'r cyfleoedd i'r plant ar gyfer y tu fewn a'r tu allan yn yr awyr agored. Dywedodd rhieni wrthym fod y rheolwyr yn gwneud gwelliannau drwy'r amser.

Mae'r prosesau i recriwtio  staff yn gadarn. Mae'r ffeiliau staff yn dangos bod yr holl wiriadau ar waith i dystiolaethu bod y staff yn addas i weithio gyda phlant yn cynnwys Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol. Mae'r arfarniadau blynyddol ystyrlon yn cynnwys meysydd ar gyfer datblygiad a hyfforddiant yn y dyfodol. Mae cyfnod sefydlu arloesol a thrwyadl ar waith sy'n arwain at dystysgrif o ganmoliaeth, yn cael ei harddangos ar gyfer pob aelod o staff. y mae'r staff yn gweithio'n dda fel tîm, pob un ohonynt yn gwybod ei rôl a'i gyfrifoldebau ac yn arwain plant yn briodol.  Y canlyniad yw bod plant yn mwynhau'r gofal maent yn ei gael gan staff brwdfrydig a hamddenol. Mae cyrsiau ychwanegol ar gwsg, iaith a datblygiad a chwarae plant yn yr awyr agored wedi cael eu cwblhau. Mae hyn yn sicrhau bod gan staff wybodaeth gyfredol ar sut i ddarparu amgylchedd dysgu da i'r plant. Canmolodd y rhieni y staff a'u disgrifio nhw yn gyfeillgar, yn hawdd i fynd atynt ac yn gynorthwyol. Nodwyd y budd o gael staff cyson a gweithwyr allweddol ar gyfer eu plant, sydd yn rhannu'r un ymagwedd at waith. Dywedodd un aelod o staff wrthym ei fod yn gallu trafod unrhyw fater gyda'r rheolwyr cefnogol a bod pob ymdrech yn cael ei wneud i ddatrys materion ar yr un diwrnod.

Mae perthynas gadarnhaol gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill ac mae hyn yn cyfrannu at lesiant y plant gan fod rhieni yn gallu dweud wrth staff yn union beth mae eu plant wedi ei fwynhau yn benodol. Mae'r rhieni yn gallu siarad gyda staff am ofal eu plant wrth ddod â nhw neu eu casglu, ac mae cylchlythyrau rheolaidd a gwybodaeth ddefnyddiol ar gael ar y gwefannau cymdeithasol diogel perthnasol. Mae'r arferion hyn yn galluogi rhieni i deimlo'n rhan o ofal eu plant.   Mae'r lleoliad yn derbyn cyngor oddi wrth dîmau Hawliau'r Blynyddoedd Cynnar a Dechau'n Deg. Dywedodd rhieni wrthym fod rheolwyr ar gael ar bob

adeg, ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd a'u bod yn groesawgar, yn hapus i wrando ac yn cymryd rhieni o ddifri. Dywedasant wrthym fod rheolwyr yn gwneud mwy na'r hyn sydd yn ddisgwyliedig ohonynt ac yn rhoi tawelwch meddwl i rieni.

## Argymhellion er mwyn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

**A1** ehangu'r ystod o ddefnyddiau naturiol ac adnoddau eildro ar gyfer pob grŵp oedran.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| Sgoriau | Beth mae'r sgoriau'n eu golygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymroddedig i welliannau parhaus, ac sydd â nifer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion ac arloesi blaenllaw o fewn y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel, ac maent yn gallu dangos eu bod yn gwneud cyfraniad cryf i wella lles plant. |
| **Da** | Mae'r rhain yn wasanaethau sydd â llawer o gryfderau, a dim meysydd pwysig sydd angen gwelliant arwyddocaol. Maent yn rhagori ar ofynion sylfaenol yn gyson, yn darparu canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hyrwyddo eu lles mewn modd gweithredol. |
| **Boddhaol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae eu cryfderau'n gorbwyso eu meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni gofynion sylfaenol, ond mae angen gwelliannau i hyrwyddo lles ac i wella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae’r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau, a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith negyddol ar les y plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gweithredu ac yn cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 04/01/2022'